

**Dewch i gyfarfod Sheila...**  
Swyddog y flwyddyn yr  
NEU ac NEU Cymru.

**Hanes yn gymaint o wers inni**  
Drama radio am yr Ail Ryfel  
Byd yn edrych ar fewnfudo,  
bryd hynny a nawr.

**Diweddariad am Covid-19**  
Cyllid dros yr haf, y gynhadledd,  
agor ysgolion a mwy.

# addysgu yng nghymru

**Rhifyn 65**  
Tymor y yr Hydref 2020



## 'Rhaid i wrth-hiliaeth fod yn ganolog yn y cwricwlwm'

**MAE NEU Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn adlewyrchu hanes pobl Dduon Cymru a hanes byd-eang y wlad, ac yn rhoi sylw i gyflawniadau Prydeinwyr Duon.**

Mewn llythyr at Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, dywedodd yr undeb hefyd y dylai pob athro yng Nghymru gael hyfforddiant gwrth-hiliaeth ac y dylid cymryd camau i sicrhau llawer mwy o amrywiaeth yn y proffesiwn addysgu.

Dywedodd David Evans, ysgrifennydd Cymru, y dylai'r Llywodraeth sicrhau lles a diogelwch gweithwyr Duon a gweithwyr sy'n agored i niwed, ynghyd â'u cymunedau.

"Mae ein haelodau yn pryderu'n fawr am yr anghyfiawnder a'r gwahaniaethau hiliol sydd wedi dod i'r amlwg drwy feirws Covid-19, ac am y digwyddiadau arswydus o greulon yn erbyn pobl Dduon yn yr Unol Daleithiau," ysgrifennodd David yn ei lythyr ar 22 Mehefin.

"Credwn fod gan Gymru gyfle, drwy'r Cwricwlwm i Gymru, i roi diwedd ar weithredoedd o gasineb sy'n ymwneud â hil, gweithredoedd nad ydynt yn newydd, yn unigryw

nac yn ddigyswllt."

Mae disgwyl cyflwyno'r cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022 a dywedodd David fod cyfle nawr i sicrhau bod addysg gwrth-hiliaeth wedi'i gwreiddio ynddo. Mae'r undeb am i Lywodraeth Cymru adolygu hyfforddiant i athrawon fel y bydd pob athro'n cael hyfforddiant gwrth-hiliaeth. Dylid mabwysiadu strategaeth i sicrhau bod y "cyflenwad" o newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn addysgu yn fwy amrywiol o lawer dros y pedair blynedd nesaf.

Mae Kirsty Williams wedi dweud y bydd hi'n mynd ati'n bwrpasol i roi sylw i'r modd y mae cymunedau pobl Dduon wedi'u tangynrychioli yn y gweithlu addysg, ac mae Llywodraeth Cymru wedi addo gweithio gyda'r arolygiaeth Estyn "er mwyn sicrhau bod eu hadolygiad o hanes Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i hanes, hunaniaeth a diwylliant pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Cymru".

Darllenwch lythyr David yn llawn yn [neu.org.uk/press-releases/curriculum-and-anti-racism-letter](https://neu.org.uk/press-releases/curriculum-and-anti-racism-letter)

■ Mae deiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deunydd addysgu gwrth-hiliol mewn ysgolion er mwyn lleihau achosion o droseddau casineb. Gallwch ei llofnodi fan hyn: [deisebau.senedd.cymru/deisebau/200056](https://deisebau.senedd.cymru/deisebau/200056)



MAE cynrychiolwyr Cymru ar Fforwm Trefnu'r Addysgwyr Duon, sef Christine Dando (chwith), Daniel Wilson (dde) a Roxanne Beckles, wrthi'n creu grŵp preifat ar Facebook i aelodau Duon yr NEU yng Nghymru. I gael rhagor o fanylion, anfonwch e-bost at Christine, [christine.dando@neu.org.uk](mailto:christine.dando@neu.org.uk) neu at Daniel, [daniel.wilson@neu.org.uk](mailto:daniel.wilson@neu.org.uk)



### HILIAETH YNG NGHYMRU?

ARCHWILIO RHAGFARN YN Y  
SYSTEM ADDYSG YNG  
NGHYMRU  
MAY 2020



DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

MAE cannoedd o ddiwrnodau ysgol yn cael eu colli a niferoedd cynyddol o ddisgyblion yn cael eu gwahardd oherwydd hiliaeth, yn ôl ymchwil yng Nghymru gan elusen gwrth-hiliaeth.

Cwblhaodd dros 1,000 o athrawon a chynorthwyr addysgu o ysgolion Cymru arolwg ar-lein a drefnwyd gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. At hynny, dangosodd cais Rhyddid Gwybodaeth gan yr elusen gynnydd o 19 y cant yn nifer y gwaharddiadau oherwydd hiliaeth ym mlwyddyn academaidd 2018/19 o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r adroddiad ar gael i'w lawrlwytho yn [theredcard.org/publications](https://theredcard.org/publications)

■ Mae Diwrnod Gwisgo Coch blynyddol Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i'w gynnal ar 16 Hydref, gyda phobl yn cael eu hannog i wisgo coch a rhoi £1 tuag at addysg gwrth-hiliaeth. Ewch i [theredcard.org/wear-red-day](https://theredcard.org/wear-red-day)

## Cyrsiau WULF yn llwyddiant ar-lein

MAE prosiect Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) NEU Cymru wedi parhau i gael cryn effaith ar aelodau yn ystod argyfwng Covid-19.

Roedd y galw am lefydd ar gyrsiau ar-lein y prosiect mor fawr nes i gyrsiau ychwanegol gael eu trefnu er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gallu manteisio ar yr hyfforddiant.

Mae'r cyrsiau ar-lein wedi cynnwys: Building the Google Classroom, ac Online Tools for Critical Thinking (Nearpod), y ddau dan arweiniad Julian Ayres, darlithydd addysg ym Mhrifysgol Glyndŵr; Getting Started with the Languages, Literacy and Communication Area of Learning and Experience, dan arweiniad yr ymgynghorydd addysg Helen Bowen; a Let's Talk Maths, dan arweiniad yr ymgynghorydd mathemateg Gaynor Murphy.

## Dyddiadau dysgu i'ch dyddiadur

### HYFFORDDIANT I GYNRYCHIOLWYR

Mae cyrsiau hyfforddiant yr Undeb i gynrychiolwyr ysgol – yn newydd a hen – yn rhoi'r adnoddau a'r hyder ichi wneud gwir wahaniaeth i fywydau aelodau. Os oes diddordeb gennych chi, anfonwch e-bost at [lisa.williams@neu.org.uk](mailto:lisa.williams@neu.org.uk) – a chofiwch, mae hawl gyfreithiol gan gynrychiolwyr i fynychu hyfforddiant. Bydd yr NEU yn cefnogi unrhyw gynrychiolydd sy'n wynebu anawsterau wrth geisio cael amser i fwrdd o'r gwaith i fod yn bresennol.

### HYFFORDDIANT I AELODAU

Mae cyrsiau ar gael drwy brosiect Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) – ewch i [bit.ly/3jgca5w](http://bit.ly/3jgca5w)

Oherwydd yr argyfwng iechyd, bydd prosiect WULF yn parhau i gynnig cyrsiau ar-lein i'n haelodau. Mae'r cyrsiau wedi bod yn hynod o boblogaidd ac oherwydd hyn, bydd rhagor yn cael eu trefnu dros y misoedd nesaf er mwyn ateb y galw. Ymhlith y pynciau sydd wedi cael sylw eisoes mae: Google Classroom a Google Package; Cymhwysedd Digidol; Lythrennedd ar gyfer y Cwricwlwm.

**Cadwch olwg ar eich e-bost i weld gwybodaeth am y cyfleoedd hyfforddiant diweddaraf. Hoffwch ni ar Facebook yn [facebook.com/neucymrutraining](https://www.facebook.com/neucymrutraining), dilynwch ni ar Twitter drwy [@neucymrutrain](https://twitter.com/neucymrutrain) ac ewch i [neu.org.uk/learning-and-events](http://neu.org.uk/learning-and-events)**

## Dwy wobwr NEU i Sheila

Y DIWRNOD ar ôl i Sheila Jones glywed ei bod hi wedi ennill gwobr swyddog y flwyddyn yr undeb yng Nghymru yn 2019/20, cafodd lythyr arall yn dweud ei bod hi hefyd wedi ennill gwobr swyddog y flwyddyn yr undeb yn genedlaethol.

“Roedd gwobr NEU Cymru yn ddigon o sioc,” meddai. “I ennill y wobwr genedlaethol wedyn, mae'n gymaint o fraint.”

Cafodd Sheila ei henwebu gan ei chydweithwraig, Angela Sandles, ac mae'r ddwy wedi bod yn ymgyrchu i wella cyflogau ac amodau gwaith athrawon cyflenwi.

Enwebwyd y ddwy am wobwr Annie Higdon eleni am wasanaethau i fenywod, a'r llynedd cawsant wobrau cyflawniad oes am eu gwaith ymgyrchu.

Athrawes gyflenwi oedd Sheila ei hun unwaith, a dywedodd iddi fwrw ati o ddiffri â'r gwaith ymgyrchu yn 2017 pan fu grŵp a alwai am gytundeb teg i athrawon cyflenwi yn lobi aelodau'r Cynulliad yng Nghaerdydd.

Arweiniodd yr ymgyrch at rywfaint o lwyddiant y llynedd pan gyflwynodd Llywodraeth Cymru gytundeb fframwaith newydd ar gyfer athrawon cyflenwi, gydag isafswm o £127.72 fel cyfradd ddyddiol. Ond nid yw'r cytundeb yn orfodol a dywedodd Sheila eu bod yn dal i glywed am athrawon yn cael eu talu cyn lleied â £95 y diwrnod. Gan

hynny, mae'r ymgyrch yn parhau.

“Mae'n waith hollbwysig ac mae pobl wedi bod yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd, yn enwedig yn ystod argyfwng Covid. Mae angen inni gael gwared ar asiantaethau, ac mae sefyllfa'r cyflogau a'r amodau mor dameidiog, mae'n annheg,” meddai Sheila, sydd hefyd yn gynrychiolydd yng Nghaerffili.

“Rwy'n rhan o dîm o ymgyrchwyr a gwaith tîm fu'r cyfan.”

Mae mwy o wybodaeth am yr ymgyrch ar gael yn [facebook.com/FairDealForSupplyTeachers](https://www.facebook.com/FairDealForSupplyTeachers)



Sheila Jones

LLUN gan Carmen Valino

## Dim digon i athrawon profiadol yn y dyfarniad cyflogau

MAE NEU Cymru yn dal i alw am godiad cyflog o saith y cant i bob athro ac athrawes ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei dyfarniad cyflog arfaethedig ar gyfer 2020 ym mis Gorffennaf.

Dywedodd David Evans, Ysgrifennydd yr Undeb yng Nghymru, ei fod yn croesawu rhai elfennau o'r dyfarniad, fel y cynnydd o 8.48 yng nghyflog cychwynnol athrawon newydd, sy'n codi i dros £27,000, a diwedd ar gyflogau wedi'u seilio ar berfformiad.

“Dyma rai o'r pethau a gyflwynwyd yn ein tystiolaeth i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru fel rhan o'n cynigion ar gyfer cyflogau athrawon yn ôl ym mis Ebrill,” meddai. Ond dywedodd fod y cynigion yn dangos y byddai'r cynnydd yn lleihau'n raddol wrth i athrawon ddringo drwy'r proffesiwn.

“Rhaid gwobrwyo athrawon ac arweinwyr mwy profiadol yn deg am eu gwaith caled a'u hymdrechion rhyfeddol, ac nid yw'r dyfarniad cyflogau hwn yn gwneud hynny,” meddai.

Gwnaeth y Corff Adolygu saith o brif argymhellion, ac mae Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, wedi derbyn pob un ohonynt mewn egwyddor. Mae'r cyfnod ymgynghori'n dod i ben yn ddiweddarach ym mis Medi. Mae adroddiad y Corff Adolygu fan hyn [bit.ly/3jZhUKA](http://bit.ly/3jZhUKA)



Mae model 3.5-metr o'r Arandora Star o'i dyddiau fel llong foethus wedi'i adfer yn ofalus yn Amgueddfa Forol Glannau Merswy yn Lerpwl. Yn y llun mae'r cadwriaethwr David Parsons yn gwneud gwaith gorffenedig ar y model cyn ei arddangos yn yr amgueddfa.

LLUN gan Gareth Jones

## 80 mlynedd wedyn, drama i'r oes hon yw Arandora

**MAE cwmni theatr o Gastell-nedd wrthi'n creu drama radio i gynulleidfa oedd ysgolion a honno wedi'i seilio ar ddigwyddiad torcalonnu yn ystod yr Ail Ryfel Byd, pan fu farw dwsinau o Gymry Eidalaid.**

Wrth i'r Eidal ymuno â'r rhyfel i gefnogi Hitler yn mis Mehefin 1940, cafodd Eidalwyr a oedd yn byw yng Nghymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig eu galw'n elynion, a chafodd nifer o'u plith eu caethiwo.

Ddiwedd mis Mehefin 1940, hwyliodd yr hen long bleser, yr Arandora Star, gyda 53 o Gymry Eidalaid ar ei bwrdd, am wersylloedd caethiwo yn Newfoundland, Canada.

Dim ond 75 milltir oddi ar arfordir Iwerddon oedd y llong pan gafodd ei tharo gan dorpido o long danfor Almaenaidd, a hynny'n gynnar ar 2 Gorffennaf. Bu farw dros 800 o bobl, gan gynnwys mwyafrif y dynion o Gymru.

**Wyth awr yn gafael ym malurion y llong** Bellach mae Theatr na nŌg yn seilio'i gynhyrchiad diweddaraf, Yr Arandora Star, ar brofiadau'r teuluoedd Eidalaid a oedd yn byw ac yn gweithio yng Nghymru yn ystod y rhyfel.

Mae Geinor Styles, cyfarwyddyd cynorthwyol y cwmni theatr, wedi ysgrifennu'r ddrama gyda'i chydweithwraig Mali Tudno Jones, gan ddwyn ysbrydoliaeth o sgysiaid â Paulette Pelosi o Abertawe. Achubwyd ei thad-cu, Guiseppe, o'r môr ar ôl gafael ym malurion y llong am wyth awr.



LLUN gan Phil Melia

Mae Geinor yn dweud mai drama i'r oes hon yw hi. "Mae'n stori hynod o ddifyr, gan ei bod yn rhoi sylw i fewnfudo a sut rydyn ni'n ymwneud â phobl sy'n wahanol inni," meddai wrth Addysgu. "Mae Eidalwyr yng Nghymru, yn enwedig yn y cymoedd, yn rhan o wead y lle. Mae'r ddrama hon yn ceisio helpu plant i ddeall bod Cymru, ac yn enwedig y de, yn wlad sydd wedi'i chreu o grwpiau niferus iawn o bobl wahanol, a'u helpu nhw i fod yn ymwybodol o hynny."

Mae hi'n sicr y bydd plant yn deall y themâu: "Mae plant yn soffistigedig iawn ac mae'r cwestiynau maen nhw'n eu gofyn yn gwbl ryfeddol. Mae'r empathi maen nhw'n ei ddangos at y cymeriadau'n anhygoel."

Dyma fydd y tro cyntaf i'r cwmni theatr gynhyrchu drama radio, fel yr eglurodd Geinor: "Dydyn ni ddim wedi gwneud dim

byd fel hyn o'r blaen. Ar gyfartaledd bydd 5,000 o blant yn gweld ein cynrychiadau, ond dyma'r cyfan y gallwn ni ei wneud ar hyn o bryd.

"Dydyn ni ddim am roi mwy o bwysau o gwbl ar athrawon, ac mae'n siwr bod y sefyllfa'n dorcalonnu iddyn nhw. Maen nhw'n sôn pa mor dawel yw'r ysgolion. Gobeithio y bydd hyn yn helpu'r plant i deimlo'n gyfforddus, yn ddiogel ac yn hyderus drachefn."

Mae gan Geinor gryn barch at y gwaith y mae athrawon wedi bod yn ei wneud drwy gydol pandemig Covid-19. "Mae'n anhygoel beth maen nhw wedi llwyddo i'w wneud."

### Penodau dyddiol ar y radio

Mae'r ddrama i'w darlledu o ganol mis Medi a hynny ar ffurf penodau dyddiol – "fel pennod o'r Archers bob diwrnod" – a hynny yn Gymraeg a Saesneg. Daniel Lloyd sy'n cyfarwyddo ac mae'r ddrama'n addas i blant blwyddyn 5 a hŷn. Ni fydd angen talu i wrando ar y ddrama, nac am ap Theatr na nŌg, sy'n cynnwys nifer o adnoddau a chynlluniau gwersi. Ewch i [theatr-nanog.co.uk](http://theatr-nanog.co.uk)

■ Cynhaliwyd gwasanaeth coffa yn Eglwys Gadeiriol Caerdydd ar 5 Gorffennaf i nod 80 mlwyddiant suddo'r Arandora Star. Mae modd clywed darnau o'r gwasanaeth, gan gynnwys adrodd enwau'r 53 o Gymry Eidalaid a oedd ar fwrdd y llong, yn [bit.ly/2ZofFPJ](http://bit.ly/2ZofFPJ)

Dadorchuddiwyd cofeb barhaol i'r rheini a fu farw yn yr eglwys gadeiriol i nodi 70 mlwyddiant y digwyddiad yn 2010.

## Yma i helpu

FEL yr undeb addysg mwyaf, gall NEU Cymru roi gwasanaeth heb ei ail i'w aelodau.

Mae ein fhm proffesiynol yma

i ddefnyddio' u harbenigedd er mwyn helpu ein rhwydwaith o gynrychiolwyr gweithle ac ysgrifenyddion rhanbarthau a changhennau.

Os oes gennych chi broblem yn y gwaith neu i gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau i aelodau, cysylltwch â'r canlynol:

- cynrychiolydd eich gweithle;
- ysgrifennydd eich cangen;
- AdviceLine;
- Swyddfa NEU Cymru.



## NEU Cymru

**TySinnott**, 18 Neptune Court, Vanguard Way, Caerdydd CF24 5PJ

**Ffôn:** 029 2049 1818

**E-bost:** cymru.wales@neu.org.uk

**Ysgrifennydd Cymru:** David Evans

**Uwch Swyddogion Cymru:**

Gareth Lloyd, Debbie Scott

**Uwch Swyddog Polisi Cymru:**

Mary van den Heuvel

**Trefnydd y Gogledd:** Cai Jones

**Trefnydd y De:** Robert Goddard

**Cyfreithiwr Cymru:** Angharad Booker

**Aelodau Gweithredol:** Neil Foden,

Máiréad Canavan, Lesley Tipping

## Prif Swyddfa

**Yr Undeb Addysg Cenedlaethol,**

Hamilton House, Mabledon Place,

Llundain WC1H 9BD

**Ffôn:** 020 7388 6191

**Gwefan:** neu.org.uk

**Llywydd:** Robin Bevan

**Cyd-ysgrifenyddion Cyffredinol:**

Mary Boustead a Kevin Courtney

**Cyfieithiad gan Rhys Iorwerth Cyf**  
**rhysiorwerth@hotmail.com**

## Llywodraeth Cymru yw'r llywodraeth gyntaf i ariannu prydau ysgol am ddim

LLYWODRAETH Cymru oedd y llywodraeth gyntaf yn y DU i ymrwmo i barhau i roi prydau ysgol am ddim i blant cymwys drwy gydol gwyliau'r haf. Darparwyd £2.6 miliwn mewn cyllid hefyd i helpu plant a oedd wedi colli llawer o weithgareddau ysgol oherwydd pandemig y coronafeirws, a hynny yn ystod gwyliau'r haf.

## Cyngor iechyd yn arwain at ailfeddwl am Gynhadledd

MAE Cynhadledd

Cymru, a oedd i fod i'w chynnal yn Llandudno ar 7-8 Tachwedd, wedi'i chanslo

oherwydd pryderon am gynnydd mewn achosion o Covid-19 yn y dyfodol. Yn dilyn

cyfarfod rhwng swyddogion NEU Cymru a holl ysgrifenyddion yr ardaloedd/canghennau ym mis Gorffennaf, gwnaed y penderfyniad unfrydol hwn ar ôl clywed barn Dr Rob Orford (yn y llun uchod), Prif Gyngorydd Gwyddonol Cymru dros lechyd.

Mae'n credu ei bod yn debygol y bydd cynnydd mewn achosion o Covid-19 yn nhymor yr hydref, a hynny'n gallu arwain at gyfyngiadau symud lleol. Ac er iddo ddweud bod system Profi, Olrhain, Diogelu Llywodraeth Cymru yn effeithiol, dywedodd hefyd nad oedd hi wedi cynhyrchu digon o ganlyniadau adeg y cyfarfod.

Dywedodd Dr Orford fod y feirws yn hoff o fannau oer a mannau dan do, ac roedd swyddogion yr NEU yn pryderu na fyddai lleoliad arfaethedig y gynhadledd yn rhoi unrhyw gyfle i bobl gadw pellter cymdeithasol. Mae NEU Cymru bellach yn edrych ar drefniadau gwahanol ar gyfer cynnal y gynhadledd, a chaiff yr ardaloedd/canghennau fwy o wybodaeth maes o law.

## Fe'ch gwelwn ni chi yn Eisteddfod 2021

MAE NEU Cymru yn edrych ymlaen at weld nifer o ffrindiau hen a newydd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y flwyddyn nesaf.

Cafodd gŵyl 2020, a oedd i fod i'w chynnal dros hanner tymor y Sulgwyn, ei chanslo oherwydd argyfwng y

coronafeirws, ond bydd gan yr undeb stondin yn y digwyddiad sydd i bara wythnos yn Sir Ddinbych y flwyddyn nesaf.

Yn ymuno â ni ar y stondin bydd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, a fydd â bandiau garddwrn, sticeri a phosteri o dimau chwaraeon Cymru i'w rhoi ymaith.

Meddai Stuart Williams, swyddog polisi NEU Cymru: "Ar ôl y siom o orfod canslo gŵyl eleni oherwydd argyfwng Covid-19, rydym yn gobeithio'n fawr y byddwn mewn sefyllfa lle gall pawb fwynhau popeth sydd gan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i'w gynnig, ac yn amodol ar y cyngor meddygol a gwyddonol, gobeithio y bydd cynifer o bobl â phosibl yn gallu cefnogi'r digwyddiad gwych hwn."

[urdd.cymru/en/eisteddfod/2021/](http://urdd.cymru/en/eisteddfod/2021/)

## Cyngor am orchuddion wyneb

MAE NEU Cymru wedi croesawu'r disgresiwn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ganiatáu mewn ysgolion a cholegau ynghylch gwisgo gorchuddion wyneb.

Ond mae'r undeb yn galw ar weinidogion i edrych ar gyngor Sefydliad Iechyd y Byd, sy'n dweud y dylai pobl 60 oed a hyn sy'n gweithio gyda phlant wisgo masgiau o safon feddygol.

Mae'r Llywodraeth yn cynghori, ond nid yn gorfodi, pawb dros 11 oed i wisgo masgiau wyneb mewn ysgolion ac wrth gael eu cludo i'r ysgol, pan nad yw'n bosibl cadw pellter corfforol o ddwy fetr.

Meddai David Evans, Ysgrifennydd yr NEU yng Nghymru: "Wrth i bawb ddychwelyd i'r ysgol a'r coleg, mae'n bwysig ein bod yn cymryd yr holl gamau i wneud pethau mor ddiogel â phosibl i staff a myfyrwyr fel ei gilydd."

■ Mae Llywodraeth Cymru'n darparu £29 miliwn o gyllid ychwanegol i roi mwy o gefnogaeth i flynyddoedd 11 ac uwch ac i ddisgyblion sydd dan anfantais ac yn agored i niwedd.

■ Roedd NEU Cymru'n siomedig pan feiwyd yr undeb am y penderfyniad gan rai awdurdodau lleol i beidio ag agor ysgolion am wythnos ychwanegol ar ddiwedd tymor yr haf.

Penderfyniadau awdurdodau lleol oedd y rhain ar sail y wybodaeth ddiweddaraf a'u hamgylchiadau lleol. Roedd yr undeb yn ffafrio aros tan fis Medi cyn ailagor, er mwyn rhoi amser i system Profi, Olrhain, Diogelu y Llywodraeth gael ei sefydlu'n iawn.

